# Cyfarfod Rhif 9 Grŵp Ecosystemau Arfordirol PBC, 30ain Gorffennaf 2013, Swyddfeydd APC Arfordir Penfro, Parc Llanion

**Yn bresennol**: Peter Rhind, Cadeirydd (CNC); Sean McHugh (Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru); Jane Hodges (APC Arfordir Penfro); Alan Kearsley-Evans (Ymddiriedolaeth Genedlaethol); Angus Garbutt (y Ganolfan Ecoleg a Hydroleg); Emmer Litt (CNC); Leanne Bird (CS Ceredigion); Simeon Jones (CS Caerfyrddin); Nick Edwards (CNC); Gill Bell (MCS/Cyswllt Amgylchedd Cymru); Duncan Ludlow (CNC); Kate Collins (CNC); Julie Garlick (APC Arfordir Penfro - yn bresennol ar gyfer yr ymweliad maes)

**Ymddiheuriadau**: Mike Howe (CNC); John Clark (Cyswllt Amgylchedd Cymru/RSPB Cymru); Matty Murphy (CNC); Mark Winder (CDS Abertawe); Quentin Grimley (CNC); Chris Wynne (Ymddiriedolaethau Natur Cymru); Ant Rogers (CS Penfro).

1. **Cofnodion y cyfarfod diwethaf**

   Derbyniwyd cofnodion cyfarfod mis Tachwedd 2012 fel rhai cywir.

2. Y Gronfa Ecosystemau Gwydn.

   Cafwyd diweddariad ar brosiectau llwyddiannus 2012:

a) Rhoddodd Emmer Litt gyflwyniad a diweddariad i'r grŵp ar gynnydd y gwaith adfywio safleoedd twyni tywod: - Cam 2 Cynffig (8.5ha); Merthyr Mawr (1.5ha); Tywyn Niwbwrch (3 llain = 3ha); Brownslade Burrows (1ha). Hefyd, mae arolygon geomorffolegol, biolegol a monitro ar y gweill ar y safleoedd rhestredig. Dylanwadwyd ar y gwaith sy'n cael ei wneud gan astudiaeth a gomisiynwyd gan y Cyngor Cefn Gwlad ac a ddyfarnwyd i Ken Pye – geomorffolegydd arfordirol blaenllaw, a chan y gwersi a ddysgwyd yng Nghynffig (cam 1). Mae manylion pellach ynghlwm (cyflwyniad Ailfywiogi Twyni Tywod) ac ar gael ar we dudalennau'r Grŵp Ecosystemau Arfordirol: http://www.biodiversitywales.org.uk/1/cy-GB/CARTREF

b) Astudiaeth cysylltedd arfordirol Pen Llŷn. Ymarferiad bwrdd gwaith oedd y prosiect wedi'i seilio ar 24 uned reoli. Gan ddefnyddio methodoleg SWOT, defnyddiwyd 4 categori i nodi strategaethau rheoli. Gweithredu yw'r cam nesaf a byddai angen cyllid i fwrw ymlaen.

c) Rheoli Overton Mere, Gŵyr. Mae astudiaeth cam 1 wedi'i chwblhau ac wedi cael ei rhannu gyda CNC cyn gwneud gwaith. Mae seilwaith pori wedi cael ei sefydlu a chanfuwyd porwr i'r safle. Roedd rheoli eithin hefyd yn rhan o'r prosiect.

**Prosiectau 2013**. Cyfarfu'r is-grŵp ariannu arfordirol ym mis Gorffennaf i fynd drwy'r ceisiadau arfordirol a gyflwynwyd ar gyfer y flwyddyn ariannol gyfredol. Bydd panel Cymru gyfan yn cwrdd ym mis Medi i ddyfarnu ar yr holl brosiectau'n ymwneud â'r gwahanol grwpiau ecosystemau a'r gweithgorau, yn cynnwys y grŵp arfordirol.

Dywedwyd y gellid gwella'r ffurflenni cais i nodi safleoedd a phrosiectau penodol â blaenoriaeth ac i ganolbwyntio ar brosiectau sydd wedi'u seilio ar weithredu. Mae'r Grŵp yn fan cyfeirio ac yn ffynhonnell gwybodaeth ddefnyddiol i ddarpar brosiectau cyn iddynt wneud cais.

3. Ailfywiogi Twyni Tywod (wedi'i drafod yn 2a) Mae'r cyflwyniad a'r camau gweithredu ynghlwm.

4. **4.** Rhaglen Genedlaethol Creu Cynefinoedd. Rhoddodd Peter ddiweddariad i'r grŵp. Arferai'r rhaglen ganolbwyntio ar forfeydd heli ond erbyn hyn mae'n cynnwys pob cynefin arfordirol. Bydd CNC yn cyflwyno papur cyfarwyddo yn nodi ardaloedd posib ar gyfer ailalinio dan reolaeth ac mae Asiantaeth yr Amgylchedd wedi cynnal astudiaethau achos i asesu dichonoldeb. Seilir y gwaith ar system goleuadau traffig – gwyrdd (dim problemau mawr wedi'u nodi); melyn (dichonadwy ond angen astudiaethau pellach); coch (ddim yn ddichonadwy). Bydd y cam nesaf yn golygu nodi safleoedd posibl lle nad oes cyfyngiadau gweithredol/tirfeddiannwr. Mae potensial da i safleoedd ar Ynys Môn ac ym mhrosiect 3 afon 'Tirwedd y Dyfodol' yr RSPB yng ngorllewin Cymru.

**5.** Symposiwm Clogwyni Môr. Dydd Mawrth 17eg a dydd Mercher 18fed Medi 2013, Llandudno, Gogledd Cymru

Teitl y symposiwm yw 'Cadw, rheoli ac adfer clogwyni arfordirol a chlogwyni llynnoedd' a cheir cyflwyniadau gan Pat Doody a Paul Rooney ac arbenigwyr arfordirol blaenllaw eraill. Bydd Peter Rhind yn rhoi sgwrs o dan y teitl 'cadw a rheoli coetiroedd ar lethrau arfordirol gan gyfeirio'n arbennig ar Benrhyn Llŷn'. Mae'r coetiroedd ar lethrau arfordirol Penrhyn Llŷn yn gymysgedd diddorol o goed derw digoes a chyll gyda chasgliad cyfoethog o gen a ffyngau. Mae i'r cynefin gysylltiad agos â Choetiroedd Cyll yr Iwerydd.

Dolen at y symposiwm Clogwyni Môr: http://www.hope.ac.uk/cliffs/

**6.** Mapio Blaenoriaethau - Graean Bras â Llystyfiant. Dywedodd Peter y bydd yn gweithio ar hyn yn y dyfodol agos a'i fod yn gobeithio gwneud cynnydd erbyn diwedd mis Awst.

**7.** Diweddariad LBAP – gwaith arfordirol yn Sir Gaerfyrddin. Rhoddodd Simeon Jones o CS Caerfyrddin ddiweddariad i'r grŵp. Cafodd Cyngor Sir Gâr arian i glirio eithin a helyg y môr gan Cwm Environmental a gwnaed gwaith ar Dywyn Pen-bre. Mae 20ha wedi cael ei agor i'w bori. Mae CS Caerfyrddin hefyd yn gwneud gwaith cynefin arfordirol a chlirio helyg y môr gyda'r Weinyddiaeth Amddiffyn ym Mhentywyn ac RAF Twyn Burrows. Mae CS Caerfyrddin hefyd yn aelod o grŵp gweithredu rhanbarthol ACA Bae Caerfyrddin ac mae'n gweithio gyda gwirfoddolwyr i reoli gweithgareddau yn y bae.

Soniodd Leanne Bird (CS Ceredigion) am brosiectau posib ar raddfa fach i wella hawliau tramwy a fyddai o fudd i fioamrywiaeth yng Ngheredigion drwy gyfuno prosiectau llwybr yr arfordir a hawliau tramwy.

**8.** Prosiect Bylchau Tystiolaeth PBC. Mae'r prosiect yn gweithio gyda'r gymuned ymchwil yng Nghymru a'r tu hwnt, gan ymdrin â bylchau yn y dystiolaeth am fioamrywiaeth a'r dull rheoli ar lefel yr ecosystem. Mae'n chwilio am ddulliau gweithredu newydd ac integreiddio â mecanweithiau presennol, i sicrhau bod tystiolaeth a chyngor da yn cael eu darparu i'r Llywodraeth, sector yr amgylchedd ac eraill. Ceir manylion y bylchau tystiolaeth a'r cynigion prosiect ar wefan PBC a gofynnwyd i'r grŵp adolygu'r wybodaeth, nodi bylchau a chyflwyno prosiectau posib. Dolen: http://biodiversitywales.org.uk/en-GB/WBP-Evidence-Gaps-Project

Angus Garbutt yw cynrychiolydd academaidd y grŵp arfordirol a nododd werth gweithio gydag adrannau ymchwil prifysgol. Nododd y grŵp nad yw ymchwil yn fodd i lenwi pob bwlch a bod monitro a chadw golwg ar y cynnydd tuag at ganlyniadau yn bwysig. Nodwyd hefyd fod cysylltu bylchau tystiolaeth â gwaith ymarferol yn bwysig.

**9. Ymweliad Maes â safle clogwyni arfordirol â llystyfiant Maenorbŷr**

Rhoddodd Jane Hodges y wybodaeth ddiweddaraf i'r grŵp ar y gwaith arfordirol yr oedd APC Arfordir Penfro yn ei wneud gyda ffermwyr a thirfeddianwyr i sicrhau bod y cynefin yn cael ei reoli. Yn hanesyddol, mae'r pori wedi encilio gydag eithin a phrysgwydd yn ymledu felly ar ochr y môr y daliadau tir. Dros y blynyddoedd mae APC Arfordir Penfro wedi bod yn dwyn perswâd, yn ymateb i ymholiadau tirfeddianwyr ac yn ysgogi cefnogaeth i waith rheoli arfordirol o fewn APC Arfordir Penfro a'r tu allan iddo. Mae'r awdurdod wedi datblygu'r cynllun yn becyn 'Cadw'r Llethrau Arfordirol', sy'n cynnig cyngor i ffermwyr a thirfeddianwyr ac yn annog cynlluniau pori. Mae'r frân goesgoch wedi elwa o hyn ac felly hefyd lawer o greaduriaid di-asgwrn-cefn a fflora. Mewn rhai ardaloedd, fodd bynnag, mae'r llethr arfordirol yn rhy serth i'w bori ac mae'n debyg y bydd yn troi'n goetir ymhen amser.

**10. Unrhyw Fater Arall**

Dywedodd Sean ei bod yn bosib bellach neilltuo lle ar gyfer Cynhadledd PBC (18fed -19eg Medi, Bangor). Thema'r gynhadledd fydd rhwydweithiau ecolegol, mae'r Gweinidog yn ei chefnogi a bydd yno siaradwyr uchel eu proffil. I gael rhagor o wybodaeth ac i neilltuo lle ewch i: http://biodiversitywales.org.uk/en-GB/Wales-Biodiversity-Partnership-Conference

Mae angen adolygu taenlen weithredu/cynllun gwaith y Grŵp a bydd hyn yn eitem ar agenda'r cyfarfod nesaf.

Dywedodd Peter Rhind na fydd yn ei swydd efallai ar gyfer y cyfarfod nesaf yng ngwanwyn 2014. Fel mesur dros dro pe na bai Peter ar gael, bydd Mike Howe ac Emmer Litt yn cydgadeirio'r Grŵp nes penodir cadeirydd parhaol.

**Ymweliad Maes**

Aeth nifer o'r grŵp ar ymweliad wedyn â Hill Farm Maenorbŷr i weld y gwaith rheoli ar y llethr arfordirol. Arweiniwyd y daith gan Jane Hodges a Julie Garlick o APC Arfordir Pendro. Mae'r awdurdod wedi gweithio gyda'r ffermwr ers blynyddoedd i feithrin perthynas barhaol sydd o fudd i gynefinoedd a rhywogaethau'r llethr arfordirol. Mae'r awdurdod yn talu ffi fechan i'r ffermwr ac yn trefnu a symud stoc pori. Gwelwyd darnau o lethr sy'n cael ei bori gyda rhywfaint o weithgarwch llosgi ar raddfa fechan i glirio rhedyn ac eithin. Ar yr ymweliad, bu teulu o frain coesgoch yn arddangos a gwelwyd brain coesgoch yn bwydo. Gwelwyd nifer dda o ganghennau gleision hefyd. Mae Teloriaid Dartford yn byw yma hefyd; ni welwyd yr un ar yr achlysur hwn ond mae'r cynefin brithwaith yn cynnal poblogaethau sy'n bridio.

Llawer o ddiolch i Jane, Julie a thîm APC Arfordir Penfro am ymweliad safle llawn gwybodaeth a mwynhad.

**Camau Gweithredu**

| Rhif | Camau Gweithredu | Pwy | Erbyn | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|
| 1 | Fframwaith/cynllun gwaith Gweithredu Arfordirol | PAWB | Eitem ar agenda cyfarfod nesaf y Grŵp i gael diweddariad | Bydd Sean yn cylchredeg y cynllun cyfredol gyda'r cofnodion. Mae llawer o'r camau gweithredu'n disgyn ar Peter, mae angen eu dosbarthu ar draws yr aelodau. |
| 2 | Arian Dŵr Cymru | Sean McHugh | I'w gylchredeg gyda'r | Bydd Dŵr Cymru'n cyhoeddi cylch ariannu newydd i helpu i gyflawni amcanion y fframwaith dŵr. Mae'r |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | cofnodion | gronfa'n agored i gyrff trydydd sector (elusennau a dielw) sydd am wneud rhywbeth i wella dyfroedd sy'n methu yng Nghymru. Rhaid bod rhyw gysylltiad ag Asedau Dŵr Cymru. Ffurflen gais o wfd@dwrcymru.com. Argymhellir trafod cynnar gyda Dŵr Cymru, i helpu i ddatblygu cynnig |
| 3 | Twyni Baglan | Peter Rhind/Mike Howe/Emmer Litt | Eitem ar agenda cyfarfod nesaf y Grŵp i gael diweddariad cynnydd | Mae gwaith datblygu'n mynd rhagddo wrth ymyl y safle. Hysbysiad SoDdGA posib/mewnbwn i gynlluniau rheoli a'r CDLl. |
| 4 | Symposiwm Clogwyni Môr | PAWB<br><br>SM | Ar agor i neilltuo lle yn y gynhadledd<br><br>Eitem ar agenda cyfarfod nesaf y Grŵp i gael diweddariad ar hynt y gynhadledd | 17eg a 18fed Medi 2013, Llandudno, Gogledd Cymru<br><br>Gwybodaeth bellach ac archebu: [http://www.hope.ac.uk/cliffs](http://www.hope.ac.uk/cliffs) |
| 5 | Prosiect Bylchau Tystiolaeth PBC | PAWB | Adolygu'r wybodaeth i ganfod bylchau a chyflwyno prosiectau posib | Mae manylion y bylchau tystiolaeth a'r cynigion prosiect ar wefan PBC. Dolen: [http://biodiversitywales.org.uk/1/cy-GB/Prosiect-Bylchau-Tystiolaeth](http://biodiversitywales.org.uk/1/cy-GB/Prosiect-Bylchau-Tystiolaeth) |
| 6 | Cynhadledd PBC | PAWB | Ar agor i neilltuo lle yn y gynhadledd | Cynhadledd PBC 'Cysylltedd Ecolegol' 18fed a 19eg Medi, Bangor. Gwybodaeth bellach a ffurflenni archebu ar gael: [http://biodiversitywales.org.uk/en-GB/Wales-Biodiversity-Partnership-Conference](http://biodiversitywales.org.uk/en-GB/Wales-Biodiversity-Partnership-Conference) |
| | | | | |
| **Camau Gweithredu Blaenorol – y diweddaraf** | | | | |
| | Mynediad i'r arfordir – y diweddaraf | Peter Rhind | Cwblhawyd | Mae Peter wedi siarad â Quentin Grimley ynglŷn ar arian ar gyfer gwaith cynefin arfordirol o gronfa llwybr yr |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | | arfordir. Yn anffodus nid oes arian ar gael ar gyfer gwaith cynefin a bydd y gronfa (£2.3m) yn canolbwyntio ar gymunedau a marchnata. |
| | Y posibilrwydd o ddatblygu Twyni Baglan. Mae angen i Gadeirydd y Grŵp Ecosystemau Arfordirol drafod hyn gyda staff lleol Cyngor Cefn Gwlad Cymru a threfnu arolygon/sylwadau ar Adnau'r Cynllun Datblygu Lleol. Hefyd rhaid crybwyll hyn ar lefel uchel yng Nghyngor Cefn Gwlad Cymru, o bosibl gerbron Aelodau'r Cyngor. | Peter Rhind/Mike Howe | Parhaus | Mae'r arolwg o greaduriaid di-asgwrn-cefn wedi'i gwblhau ac wedi cael ei ddosbarthu i'r grŵp. Safle bach yw hwn, ond mae'n cynnwys brithwaith da o gynefinoedd gyda llaciau tywyn arloesol. Y posibilrwydd o'i hysbysu fel rhan o SoDdGA Twyni Crymlyn. Eitem ar agenda cyfarfod nesaf y Grŵp. |
| | Adroddiad ar ecoleg adfer traethau | Emmer Litt | Cwblhawyd | Mae'r adroddiad ynghlwm wrth y camau gweithredu ac ar gael hefyd o http://www.biodiversitywales.org.uk/en-GB/Coastal |
| | Ardaloedd â blaenoriaeth – graean arfordirol â llystyfiant | Peter Rhind | Parhaus | Mae Peter yn gweithio ar hyn ac yn gobeithio'i gwblhau erbyn mis Awst 2014. Bydd Peter yn hysbysu'r grŵp o'r cynnydd interim |
| | Gweithdy Twyni Tywod<br>Dylid sicrhau bod y trafodion ar gael | Peter Rhind | Parhaus | Mae Peter yn dal i ddisgwyl am un cyflwyniad cyn y gall ryddhau'r trafodion. |